Tachwedd 2024

(Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd)

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hap-samplu gan y Panel Craffu Llais y Plentyn

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

## Tachwedd 2024

## Cynnwys

**1.** **Trosolwg, Cefndir, Diben a Methodoleg** 3

**2.** **Crynodeb Gweithredol** Error! Bookmark not defined.

**3.** **Adolygiad o ddigwyddiadau Llais y Plentyn** 5

**4.** **Arsylwadau a Sylwadau Cyffredinol** 7

## 1. Trosolwg, Cefndir, Diben a Methodoleg

Mae'r Llawlyfr Sicrhau Ansawdd, sydd ar gael i'w ddarllen ar wefan CHTh, yn nodi cefndir, diben a methodoleg y Panel.

Ar 20 Tachwedd 2024, cyfarfu aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys i adolygu detholiad o ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys ieuenctid er mwyn sicrhau bod Llais y Plentyn yn cael ei gipio. Roedd Logiau Cofnod Digwyddiad, Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd a Ffurflenni Cyfeirio Amlasiantaeth yn destun craffu, gyda chyfanswm o dri achos wedi'u cwblhau.

Rhoddodd y Ditectif Arolygydd Thomas o Uned Gyfeirio Ganolog Heddlu Dyfed-Powys wybodaeth i'r Panel ymlaen llaw, gan bwysleisio bod sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei ystyried ym mhob cam allweddol o ymchwiliad yn hanfodol o ran sicrhau bod ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cael ei gymryd. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer yr ymchwiliadau hynny lle mae plentyn yn cael ei ystyried yn ddioddefydd neu'n ddrwgdybyn, ac yn ystod episodau dalfa hefyd.

Esboniodd y Ditectif Arolygydd bod proses graffu ar gyfer episodau dalfa ond nid ar gyfer unrhyw ymchwiliadau troseddol, felly gofynnwyd i'r Panel Sicrhau Ansawdd bontio'r bwlch a datblygu proses graffu ar gyfer ymchwiliadau.

Ymhellach i hyn, mae llais y plentyn yn berthnasol drwy gydol oes ymchwiliad. Fodd bynnag, rhai cyfnodau allweddol a oedd yn berthnasol i'r panel eu hystyried oedd:

- Yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf.
- Wrth ymweld â phlentyn yn ei gartref neu rywle mae'n mynd iddo'n aml.
- Wrth ddogfennu unrhyw gŵyn droseddol.
- Wrth benderfynu ynghylch cyfeiriad neu ganlyniad ymchwiliad.
- Adeg arestio.

- Ar ddiwedd ymchwiliad.

Er mwyn cynorthwyo swyddogion rheng flaen i asesu llais y plentyn wrth ymateb i ddigwyddiadau, mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu'r fframwaith ganlynol –

YMDDANGOSIAD

GEIRIAU

GWEITHGARWCH AC YMDDYGIADAU

PERTHNASAU A DYNAMEG

AMGYLCHEDD

Gofynnwyd i'r panel ystyried yr uchod wrth graffu ar yr achosion ynghyd â sicrhau pa un ai a yw'r canlynol wedi'i ystyried ai peidio –

1. A oes asesiad o anghenion dioddefwyr wedi'i gwblhau, ac a ydyn ni'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr?
2. A yw'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr wedi'i ystyried yn ystod ymateb yr heddlu?
3. A oes Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd wedi'i gyflwyno? Os na, pam na chafodd ei gyflwyno?
4. A oes cofnod o ddymuniadau'r plentyn yng nghofnodion yr heddlu, neu o fewn unrhyw gyfrifon maen nhw wedi rhoi i swyddogion?
5. A oes tystiolaeth o ddymuniadau/anghenion y dioddefydd yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiadau'r goruchwylydd o fewn y cofnod ymholiad digwyddiad?
6. A oes tystiolaeth bod trafodaethau strategaethol wedi'u cynnal mewn perthynas â'r digwyddiad, ac a yw llais y plentyn/dymuniadau'r plentyn wedi'i gofnodi/wedi'u cofnodi fel rhan o hyn?
7. Os yw'r ymchwiliad wedi dod i ben, a ystyriwyd dymuniadau'r plentyn yn ystod y broses benderfynu ac a gawsant eu cipio yng nghofnodion yr heddlu?

## 2. Crynodeb Gweithredol

Yn gyffredinol, daeth y panel i'r casgliad bod gan bob achos a adolygwyd rai elfennau lle cipiwyd llais y plentyn, ond bod angen gwelliant. Yn ystod y broses graffu, mynegodd y panel bryder bod yn rhaid cipio gwir lais y plentyn yn hytrach na dadansoddiad y swyddog.

Roedd y panel hefyd yn poeni y gellid effeithio ar ddarparu adnoddau staff oherwydd yr holl swyddogion sydd angen i nodi'r cofnodion adrodd. Mynegwyd pryder hefyd am y nifer cynyddol o gyfeiriadau sy'n ymwneud â phlant, ac awgrymwyd ffyrdd posibl o liniaru'r amser a dreulir yn teipio adroddiadau/cofnodion, gan gynnwys y defnydd o drawsgrifio llais/testun.

Ceir crynodeb o'r arsylwadau achos isod:

## 3. Adolygiad o achosion Llais y Plentyn

*Achos 1*

*Mae plentyn wedi honni bod ei dad wedi'i gam-drin ac wedi bwrw un arall o'i blant.*

**Nodweddion Cadarnhaol**

- Nodwyd bod dymuniadau'r plentyn wedi'u clywed a'u cofnodi
- Cymerwyd ymagwedd sensitif gan swyddogion

**Nodweddion Negyddol**

- Nid yw'n glir pa un ai a yw'r plant wedi'u hysbysu am gynnydd yr ymchwiliad, sy'n awgrymu na chydymffurfiwyd â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr
- Ni ddarparwyd Hysbysiad Diogelu'r cyhoedd ac ni nodwyd rheswm pam
- Dim tystiolaeth bod trafodaeth strategol wedi'i chynnal
- Pryderon o ran yr amser mae'r ymchwiliad yn cymryd
- Llawer o wybodaeth wedi'i chipio, ond nid llais y plentyn
- Pryderon nad oedd geiriau'r plant eu hunain wedi'u cipio. Yn hytrach, mae dadansoddiad y swyddog wedi'i gofnodi
- Dim tystiolaeth o ddymuniadau/anghenion y dioddefwyr yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiadau'r goruchwylydd

**Ymholiadau a godwyd**

- A yw'r drafodaeth gychwynnol gyda'r plentyn wedi'i recordio? Awgrymwyd y gallai unrhyw recordiadau gael eu defnyddio wedyn i

drawsgrifio geiriau'r plentyn ei hun ar gyfer y cofnodion, gan roi cofnod cywir.

*Achos 2*

*Aed â'r plentyn i ofal yr heddlu o dan adran 46*

**Nodweddion Cadarnhaol**

- Mae Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd wedi'i gyflwyno
- Tystiolaeth bod dymuniadau'r plentyn wedi'u cofnodi
- Cynhaliwyd ymchwiliad manwl ar unwaith
- Ystyriwyd llais y plentyn yn ystod ymateb yr heddlu

**Nodweddion Negyddol**

- Ni ddilynwyd y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr. Awgrymwyd bod angen rhestr wirio well fel bod swyddogion yn medru dangos tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth
- Mae lleisiau siblingiaid y dioddefydd yn cael eu cipio'n well o fewn yr adroddiadau na llais y dioddefydd

*Achos 3*

*Daethpwyd o hyd i ddelweddau anweddus o blant ar ffôn y drwgdybyn gwrywaidd. Mae gan y drwgdybyn ddau sibling iau y gwyddom amdanynt.*

**Nodweddion Cadarnhaol**

- Tystiolaeth bod y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr wedi'i ddilyn
- Cyflwynwyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd
- Tystiolaeth bod trafodaeth am strategaeth wedi'i chynnal
- Ymdriniwyd â'r achos yn brydlon

**Nodweddion Negyddol**

- Dim tystiolaeth bod y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr wedi'i ystyried yn ystod ymateb yr heddlu
- Nodwyd bod cyfweliadau gyda'r plant wedi'u cynnal, ond nid oedd yn glir p'un a oedd adborth parhaus wedi'i roi i'r dioddefwyr
- Roedd yn aneglur p'un a oedd dymuniadau/anghenion y dioddefwyr wedi'u hystyried fel rhan o adolygiad y goruchwylydd
- Ar ôl nodi'r dioddefydd, dylid fod wedi cyflwyno adroddiad pryder am blentyn

**Ymholiadau a godwyd**

- Gan na chafodd y dioddefydd, a oedd yn blentyn, ei adnabod,

cwblhawyd Hysbysiad Diogelu’r Cyhoedd ar gyfer y dyn. Beth oedd y rheswm am hyn?

*Achos 4*

*Pryderon am gamfanteisio’n rhywiol ar blant*

**Nodweddion Cadarnhaol**

- Tystiolaeth bod y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr wedi’i ystyried yn ystod ymateb yr heddlu
- Cyhoeddwyd Hysbysiad Diogelu’r Cyhoedd
- Nodwyd cofnod o ddymuniadau’r plentyn yng nghofnodion yr heddlu
- Dilynwyd honiadau mewn modd sensitif

**Nodweddion Negyddol**

- Dilynwyd rhai elfennau o’r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, ond nid pob un ohonynt
- Pryderon bod yr ymchwiliad wedi cymryd amser hir

## 4. Arsylwadau a Sylwadau Cyffredinol

| Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|
| Pryderon bod dadansoddiad swyddog o’r hyn y dywedodd plentyn yn cael ei gofnodi, gan godi pryderon nad yw llais gwirioneddol y plentyn yn cael ei gofnodi.<br><br>Holodd y panel pa un ai a yw’r sgwrs gychwynnol gyda’r plentyn yn cael ei recordio a pha un ai a ellid defnyddio unrhyw recordiadau i drawsgrifio geiriau’r plentyn ei hun ar gyfer y cofnodion. | Pan mae swyddog yn cofnodi cyfrif gan blentyn mewn llyfryn cyfweliad tyst, dylid cofnodi’r cwestiynau a holir a’r atebion iddynt gair am air heblaw bod hyn yn amhosibl.<br><br>Cydnabyddir nad oedd hyn wedi digwydd mewn un achos, a bydd adborth yn cael ei roi.<br><br>Yn aml, nid oes gan staff sydd fel arfer yn cael eu hanfon i ymgymryd ag ymweliadau ar y cyd â’r gwasanaethau cymdeithasol fynediad at offer recordio yn ystod y cam hwn o ymchwiliad, a dibynnir ar gofnodion ysgrifenedig. |

| | |
|---|---|
| O fewn achos 3, roedd un dioddefydd, a oedd yn blentyn, heb ei adnabod, a chwblhawyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer dyn. Beth oedd y rheswm am hyn? | Gyda'r achos hwn, cyflwynwyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer oedolyn gan nad oedd dioddefydd a oedd yn blentyn wedi'i adnabod. Canfu bod gan ddyn Ddelweddau Anweddus o Blant ar ei ddyfais, ac o'r herwydd, cyflwynwyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd er mwyn hysbysu'r awdurdod lleol a sefydlu pa un ai a oedd unrhyw gofnodion o'r drwgdybyn yn cael cysylltiad â phlant. |
| Mynegodd y panel bryderon ynghylch faint o amser mae swyddogion yn treulio'n ysgrifennu adroddiadau gydag adnoddau'n her i Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>Holodd y panel pa un ai a oedd dulliau eraill (e.e. meddalwedd llais i destun) wedi'u hystyried er mwyn lleihau'r amser mae'n rhaid i swyddogion dreulio'n teipio adroddiadau. | Nid yw hwn yn fater rwyf fel arfer y gyfrifol amdano.<br><br>Rwyf wedi archwilio i feddalwedd drawsgrifio mewn perthynas â'm maes cyfrifoldeb ac wedi canfod ei bod yn annibynadwy.<br><br>Rydyn ni wedi treialu ei defnydd wrth recordio trafodaethau strategaeth ar gyfer plant mewn perygl, fodd bynnag, nid oedd y cynnyrch yn gywir ac nid oes modd inni barhau ag ef. |
| Holodd y panel pa un ai a oedd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd yn cael ei greu ar gyfer pob Cofnod Ymholiad Digwyddiad gan fod rhai ffeiliau achos yn cynnwys Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd ac eraill ddim. | Nid oes Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd yn cael ei greu ar gyfer pob digwyddiad. Mae Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd ond yn cael ei gyflwyno os oes plentyn cysylltiedig mewn perygl, os oes oedolyn mewn perygl, neu os oes cysylltiad trais domestig â digwyddiad penodol. |
| Gofynnodd y panel am eglurder i ddeall pwy sy'n gyfrifol am roi adborth i blentyn (yr heddlu/gwasanaethau cymdeithasol/rhiant ac ati), gan awgrymu bod angen blychau-ticio/maes penodol ar gyfer rhoi adborth ar y cofnod ymholiad digwyddiad. | Os oes plentyn yn dioddef trosedd, cyfrifoldeb yr heddlu yw diweddaru'r plentyn am gynnydd ymchwiliad os yn briodol. Gellir gwneud hyn drwy riant neu ofalwr os yn briodol, ond dylid dogfennu'r dull diweddaru'n glir. |